



Chartered Institute of  
Environmental Health

Sefydliad Siartredig  
Iechyd yr Amgylchedd

13<sup>th</sup> August 2024

First Minister of Wales  
Welsh Government  
5th Floor  
Tŷ Hywel  
Cardiff Bay  
CF99 1NA

Dear First Minister,

I extend my warmest congratulations on your appointment as First Minister of Wales and recognise the momentous occasion as you become the first woman to lead the nation. I am writing to you on behalf of the Chartered Institute of Environmental Health (CIEH), the foremost professional body for environmental health practitioners in England, Wales and Northern Ireland, representing a diverse and skilled membership of over 7,500 individuals across various sectors. As an organisation dedicated to promoting and protecting health, wellbeing, and the environment, CIEH looks forward to working closely with your administration to achieve our shared goals.

As you know given your previous position as Cabinet Secretary of State for Health, Social Care and the Welsh language, the societal and economic prosperity of Wales is inextricably linked to the health of our citizens and the quality of our environment. It is through this joint commitment that we look forward to working together to highlight the pivotal role environmental health professionals play in upholding public health protections. We particularly welcome the environmental health commitments in the Welsh Government's recent legislative announcements and our members are ready to support you in building a fairer, stronger, greener Wales.

We're sure you will agree that it is a pivotal time for environmental health, with a recent rise in foodborne illness and growing concerns around the public health impacts of water pollution and air pollution. As we face these complex health and environmental issues, the role of environmental health professionals becomes increasingly crucial. At this time, we look forward to working with you and the Welsh Government on tackling these issues and our commitments laid out in our [CIEH Manifesto for environmental health 2024](#) | [Maniffesto Iechyd yr Amgylchedd 2024](#).

I would like to once again, congratulate you on your new position and would welcome the opportunity for CIEH to discuss environmental health in Wales with you in the future.

Yours sincerely,  
Fran McCloskey

The Chartered Institute of Environmental Health is a registered charity incorporated by Royal Charter (No. 290350)

Mae Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd yn elusen gofrestredig a gorfforwyd gan Siarter Brenhinol (Rhif 290350)

Chief Executive Officer  
Chartered Institute of Environmental Health

Direct line: 020 7827 5842  
Email: [f.mcloskey@cieh.org](mailto:f.mcloskey@cieh.org)



13 Awst 2024

Prif Weinidog Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Pumed Llawr  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Annwyl Brif Weinidog,

Cynigiaf fy llongyfarchion twymgalon i chi ar eich penodiad yn Brif Weinidog Cymru ac rwy'n sylweddoli pwysigrwydd y digwyddiad wrth i chi ddod y fenyw gyntaf i arwain y genedl. Rwyf yn ysgrifennu atoch ar ran Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH), y corff proffesiynol pennaf ar gyfer ymarferwyr iechyd amgylcheddol yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, yn cynrychioli aelodaeth amrywiol a medrus o dros 7,500 o unigolion ar draws sectorau amrywiol. Fel corff sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo a diogelu iechyd, llesiant a'r amgylchedd, mae CIEH yn edrych ymlaen at weithio'n glos gyda'ch gweinyddiaeth i gyflawni'r nodau sy'n gyffredin rhyngom.

Fel y gwyddoch, o ystyried eich swydd flaenorol yn Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Gymraeg, mae cysylltiad annatod rhwng ffyniant cymdeithasol ac economaidd Cymru ag iechyd ein dinasyddion ac ansawdd ein hamgylchedd. Trwy'r ymrwymiad ar y cyd hwn yr ydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'n gilydd i amlygu'r rhan allweddol y mae gweithwyr iechyd yr amgylchedd proffesiynol yn ei chwarae wrth gynnal diogeliad i iechyd cyhoeddus. Rydym yn rhoi croeso neilltuol i'r ymrwymadau iechyd yr amgylchedd yng nghyhoeddiadau deddfwriaethol diweddar Llywodraeth Cymru ac mae ein haelodau yn barod i'ch cefnogi wrth lunio Cymru decach, gryfach a gwyrddach.

Rydym yn siŵr y byddwch yn cytuno bod hwn yn gyfnod allweddol i iechyd yr amgylchedd, gyda chynnydd diweddar mewn salwch yn deillio o fwydydd a phryder cynyddol am effeithiau llygredd dŵr a llygredd aer ar iechyd cyhoeddus. Wrth i ni wynebu'r problemau iechyd ac amgylcheddol cymhleth hyn, mae swyddogaeth gweithwyr iechyd yr amgylchedd proffesiynol yn dod yn fwyfwy allweddol. Ar hyn o bryd, rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi a Llywodraeth Cymru ar dacio'r materion hyn a'n hymrwymadau a nodwyd yn ein [CIEH Manifesto for environmental health 2024](#) | [Maniffesto Iechyd yr Amgylchedd 2024](#).

Hoffwn, unwaith eto, eich llongyfarch ar eich swydd newydd a byddwn yn croesawu'r cyfle i CIEH drafod iechyd yr amgylchedd yng Nghymru gyda chi yn y dyfodol.

Yn gywir,

Fran McCloskey

Handwritten initials 'FM' in a bold, black, cursive style.

Prif Swyddog Gweithredol  
Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd

Llinell uniongyrchol: 020 7827 5842  
E-bost: [f.mccloskey@cieh.org](mailto:f.mccloskey@cieh.org)